Sgiliau i Weithwyr Proffesiynol sy'n Dysgu

Skills for Learning Professionals

**31 Hydref 2007**

**Cymeradwyaeth y Gweinidog am safonau addysgu proffesiynol newydd yng Nghymru**

Mae John Griffiths AC, Dirprwy Weinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, wedi cyhoeddi set newydd o safonau addysgu proffesiynol ar gyfer y sector dysgu gydol oes yng Nghymru. Y nod yw codi safonau addysgu i bob athro, tiwtor a hyfforddwr ac yn eu tro i gynyddu cyflawniadau dysgwyr ym mhob rhan o Gymru.

Mae'r safonau newydd hyn yn rhan o gyflwyno'r weledigaeth ar gyfer addysg a gafodd ei chyhoeddi yn '*Y Wlad sy'n Dysgu – Gweledigaeth ar Waith'* y llynedd, y cynllun strategol ar gyfer addysg, dysgu gydol oes a sgiliau yng Nghymru hyd at 2010. Maent yn ymdrin â'r angen i yrru safonau addysgu a chyflawni i fyny ym mhob lleoliad dysgu ar yr un pryd â gwerthfawrogi a chefnogi ymarferwyr.

Cafodd y safonau eu comisiynu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'u datblygu gan Lifelong Learning UK (LLUK), y Cyngor Sgiliau Sector dros ddysgu gydol oes. Cafwyd cefnogaeth eang am y safonau drwy ymgynghoriadau â'r sector a chafodd eu datblygiad ei arwain gan grŵp llywio o randdeiliaid. Bu LLUK yn gyfrifol am ddatblygu'r safonau ar gyfer athrawon, tiwtoriaid a hyfforddwyr yn y sector dysgu gydol oes yn Lloegr hefyd a gafodd eu cyflwyno fis diwethaf.

Meddai Michelle Sayers, Rheolwr Cenedlaethol LLUK dros Gymru: "Yn ogystal â helpu i wella ansawdd addysgu, hyfforddi a dysgu, mae'r safonau yn un o gydrannau'r agenda broffesiynoliaeth ehangach ar gyfer y sector yng Nghymru".

Wrth i'r safonau ymgorffori darpariaeth addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu i oedolion yn y gymuned, gobaith y Gweinidog yw y byddant hefyd yn helpu i gyflwyno ymrwymiad "Y Wlad sy'n Dysgu – Gweledigaeth ar Waith" i ddatblygu a gwella hyblygrwydd yn nefnydd athrawon, tiwtoriaid

**31 October 2007**

**Ministerial approval for new professional teaching standards in Wales**

John Griffiths AM, Deputy Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills has announced a set of new professional teaching standards for the lifelong learning sector in Wales. The aim is to raise teaching standards for all teachers, tutors and trainers and in turn increase the achievements of learners across Wales.

These new standards are part of the delivery of the vision for education announced in last year's '*The Learning Country – Vision into Action',* the strategic plan for education, lifelong learning and skills in Wales until 2010. They address the need to drive up standards of teaching and attainment in all learning settings while valuing and supporting practitioners.

The standards were commissioned by the Welsh Assembly Government and developed by Lifelong Learning UK (LLUK), the Sector Skills Council for lifelong learning. Widespread support was received for the standards through consultations with the sector and their development was guided by a steering group made up of key stakeholders. LLUK has also been responsible for developing the standards for teachers, tutors and trainers in the lifelong learning sector in England that were introduced last month.

Michelle Sayers, LLUK's National Manager for Wales said: "As well as helping to improve the quality of teaching, training and learning, the standards are a component of the wider professionalisation agenda for the sector in Wales".

The Minister hopes that as the standards embrace further education, work based learning and community based adult learning provision, they also help to deliver on "The Learning Country - Vision into Action" commitment to develop and improve the flexibility of deployment of teachers, tutors and

a hyfforddwyr o fewn ac ar draws ffiniau'r sector.

Wrth sôn am y safonau, dywedodd Mr Griffiths: "Mae'n bleser gen i argymell y safonau newydd hyn i chi. Rwy'n disgwyl i'n holl bartneriaid yn y sector dysgu gydol oes yng Nghymru barhau i gydweithio i fanteisio i'r eithaf ar y safonau addysgu newydd hyn".

--DIWEDD—

Am fwy o wybodaeth am y cyhoeddiad cysylltwch â Michelle Sayers, Rheolwr Cenedlaethol Cymru, ar 0870 756 4974 neu 07921 291 339.

Gydag ymholiadau wrth y wasg cysylltwch â Zoe Vipond, Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu, 020 7936 5741.

**Nodiadau i olygyddion**

1. Mae gan y sector dysgu gydol oes fwy na miliwn o weithwyr ar draws y DU sy'n gweithio ym meysydd dysgu a datblygu cymunedol, addysg bellach, addysg uwch, llyfrgelloedd, archifau a gwasanaethau gwybodaeth a dysgu yn y gwaith. O'r rhain, mae rhyw 109,000 yn gweithredu yng Nghymru.

2. Nod LLUK yw annog athrawon, hyfforddwyr, llyfrgellwyr a staff eraill i ennill sgiliau a chymwysterau newydd er mwyn cynnig gwasanaeth gwell i bobl ifanc ac oedolion sy'n dysgu.

3. Mae hefyd yn hyrwyddo dysgu gydol oes fel gyrfa fel y bydd gyflogwyr yn y sector lai o anhawster yn recriwtio ac yn cadw staff.

4. Yn ogystal â datblygu safonau galwedigaethol i'r sector cyfan, mae LLUK yn cynhyrchu gwybodaeth am y farchnad lafur er mwyn i gyflogwyr dysgu gydol oes gael gweld bylchau a diffygion o ran sgiliau ymhlith eu gweithlu eu hun.

5. Mae Lifelong Learning UK yn un o 25 o gynghorau sgiliau sector sy'n rhan o Rwydwaith Sgiliau ar gyfer Busnes, a sefydlwyd gan gyflogwyr i godi lefelau sgiliau ymhlith y gweithlu cyfan drwy well hyfforddiant a datblygiad.

trainers within and across sector boundaries

On the standards, the Minister commented: "I am pleased to recommend these new standards to you. I look to all our partners in the lifelong learning sector in Wales to continue to work together to make full use of these new teaching standards

--ENDS—

For more information on the work of LLUK in Wales please contact Michelle Sayers, National Manager for Wales, on 0870 756 4974 or 07921 291 339.

For press enquiries please contact Zoe Vipond, Communications Officer, 020 7936 5741.

**Notes for editors**

1. The lifelong learning sector has more than one million employees across the UK working in community learning and development, further education, higher education, libraries, archives and information services and work-based learning. Of these, approximately 109,000 operate in Wales.

2. LLUK aims to encourage teachers, trainers, librarians and other staff to gain new skills and qualifications so that they offer a better service to young people and adult learners.

3. It also promotes lifelong learning as a career so that employers in the sector have less difficulty recruiting and retaining staff.

4. In addition to developing sector-wide occupational standards, LLUK also produces labour market intelligence so that lifelong learning employers can identify skills gaps and shortages among their own workforce.

5. Lifelong Learning UK is one of 25 sector skills councils that make up the Skills for Business Network, set up by employers to raise skills levels among the workforce as a whole through better training and development.

DYSGU GYDOL OES yn y DU

Sgiliau i Weithwyr Proffesiynol sy'n Dysgu

LIFELONG LEARNING UK

Skills for Learning Professionals